# Consortiwm Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Chwarae'r DU

# Manyleb Person ar gyfer aelodau o Grŵp Cyfeirio Annibynnol NOS (rol wirfoddol)

## Pwrpas

Partneriaeth o sefydliadau chwarae a gwaith chwarae cenedlaethol yw Consortiwm Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Chwarae y DU: Chwarae Cymru, Play England, PlayBoard Northern Ireland, Play Scotland a'r Playwork Foundation. Cafodd y consortiwm ei gymeradwyo gan Banel Safonau a Fframweithiau y DU i gynnal adolygiad wedi'i hunan-ariannu o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae ar ran sector gwaith chwarae'r DU.

Caiff y grŵp ysgrifennu ei gefnogi gan amrywiol Grwpiau Cyfeirio Arbenigol. Pwrpas y grwpiau hyn fydd bod yn gyfaill beirniadol i'r Grŵp Ysgrifennu NOS a Chonsortiwm Gwaith Chwarae NOS y DU. Rydym yn recriwtio aelodau gwirfoddol i'r Grwpiau Cyfeirio Arbenigol sy'n meddu ar wybodaeth benodol am Addysg Uwch, Cymwysterau a Chyrff Dyfarnu, darparu Addysg Bellach, gwaith chwarae mynediad agored a gofal y tu allan i oriau ysgol.

Grŵp o arbenigwyr ymroddedig o'r sector fydd y grŵp ysgrifennu NOS a fydd yn datblygu'r gwaith o ysgrifennu safonau galwedigaethol newydd ar gyfer gwaith chwarae yn ystod 2024/25. O ganlyniad i natur ddwys y gwaith a'r angen i fynychu a chanolbwyntio'n gyson rydym yn awyddus i recriwtio uchafswm o wyth aelod. Mae manyleb person ar wahân hefyd ar gael ar gyfer aelodau o'r grŵp ysgrifennu.

## Sut i wneud cais

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r grŵp ysgrifennu, anfonwch e-bost atom yn esbonio sut yr ydych yn bodloni'r gofynion o ran y priodoleddau, y sgiliau a'r wybodaeth a restrir yn y fanyleb person isod, ynghyd â CV.

E-bostiwch: **adolygiadnos@chwarae.cymru**



© Chwarae Cymru

## Rôl Grwpiau Cyfeirio Arbenigol

Bydd y Grŵp Cyfeirio Arbenigol yn cyfarfod ddwywaith neu dair yn ystod y broses o ddatblygu'r safonau galwedigaethol cenedlaethol ac yn helpu i lunio'r safonau drafft cyn eu rhannu ar gyfer ymgynghoriad ehangach. Rôl y grwpiau hyn fydd sicrhau bod y safonau terfynol yn ystyried gofynion eang ac amrywiol y sector gwaith chwarae ledled y DU.

Rhagwelir y bydd y Grwpiau Cyfeirio Arbenigol yn cyfarfod:

1. ar ddechrau'r broses ddatblygu
2. i roi adborth ar y map gweithredol sy'n rhoi trosolwg eang o gynnwys y safonau
3. i roi adborth ar y safonau terfynol cyn yr ymgynghoriad ehangach.

Er bod profiad o ddatblygu NOS a/neu gymwysterau yn bwysig, rydym hefyd yn awyddus i feithrin gwybodaeth a gallu yn y sector ar gyfer adolygiadau NOS yn y dyfodol. Oherwydd hyn, rydym yn croesawu ceisiadau gan ddarpar aelodau o Grwpiau Cyfeirio Arbenigol nad ydynt wedi gweithio'n uniongyrchol yn y maes hwn o'r blaen.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r Grwpiau Cyfeirio Arbenigol ond yn bwriadu cael grwpiau sy'n cwmpasu'r is-sectorau canlynol:

- chwarae a gwaith chwarae mewn Addysg Uwch
- darparwyr cymwysterau addysg bellach a chyrff dyfarnu
- gwaith chwarae mynediad agored
- gofal y tu allan i'r ysgol
- gwaith chwarae mewn cyd-destunau eraill – gan gynnwys gwaith ieuenctid, iechyd, ysbytai, carchardai, addysg ac ysgolion.

## Manyleb person:

Mae'n rhaid i aelodau o'r Grwpiau Cyfeirio Arbenigol hefyd allu dangos profiad, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n rhoi sylw i bob un o'r canlynol:

- Gwybodaeth am y sector gwaith chwarae
- Gwybodaeth fanwl am is-sector eu Grŵp Cyfeirio Arbenigol penodol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth am y broses o ddatblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol a'r cysylltiad rhyngddynt a chymwysterau eraill
- Gwybodaeth fanwl am gyd-destun cenedlaethol a'r blaenoriaethau ar gyfer safonau galwedigaethol cenedlaethol yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Gymru
- Amrywiaeth mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i fod yn ddiplomyddol
- Gweithio o bell gan ddefnyddio meddalwedd cyfarfodydd ar-lein.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw 31 Gorffennaf 2024.**